**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

17 Ebrill 2020

Annwyl Lesley,

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n dda.

Fel y gwyddoch, yn sgil pandemig y coronafeirws COVID-19, bu'n rhaid canslo cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 25 Mawrth, lle'r oeddech i fod i roi tystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('y Memorandwm') ar gyfer Bil Pysgodfeydd 2019-20.

Gan nad yw pwyllgorau'r Cynulliad yn cyfarfod yn ôl yr arfer ar hyn o bryd, mae'n annhebygol, hyd y gellir gweld, y bydd modd i ni aildrefnu eich sesiwn dystiolaeth. Felly, mae'r Pwyllgor wedi cytuno y byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a nodir isod.

Gofynnodd y Pwyllgor Busnes i ni gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 7 Mai 2020, ac rydym yn dal i weithio tuag at hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, deallwn efallai bod hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi cael ei ohirio. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau, cyn gynted â phosibl, a ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â'r ddadl a drefnwyd yn y Cyfarfod Llawn neu a yw'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn wedi'i diwygio.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

**Amcanion Pysgodfeydd**

Gwnaed newidiadau i'r amcanion pysgodfeydd ers y fersiwn flaenorol o Fil 2019-20[1]. Ailddrafftiwyd yr 'amcan cynaliadwyedd', cyflwynwyd amcan 'sgil-ddalfa' yn lle'r 'amcan gwaredu' ac ychwanegwyd amcanion newydd o ran 'budd cenedlaethol' a 'newid yn yr hinsawdd'.

**1. Yn eich barn chi, beth yw'r prif fanteision yn sgil y newidiadau hyn? A wnewch chi gynnwys enghreifftiau penodol o sut y gallai'r newidiadau hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yng Nghymru?**

**2. A allwch chi egluro pwrpas ac effaith arfaethedig yr amcanion 'budd cenedlaethol' a 'newid yn yr hinsawdd'? Sut bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu ym mholisi pysgodfeydd y dyfodol yng Nghymru?**

**3. Dim ond i bysgod o ddisgrifiad gwahanol y mae'r diffiniad o 'sgil-ddalfa' yn berthnasol. A fydd yr 'amcan sgil-ddalfa' yn ei gwneud yn ofynnol i bysgotwyr lanio pob pysgodyn gan gynnwys unrhyw symiau gormodol o bysgod a allai beri iddynt fynd y tu hwnt i'r cwota ar gyfer y stoc honno?**

**4. A allwch chi egluro pam nad yw'r elfen lanio o'r 'amcan sgil-ddalfa' yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth lanio o dan Erthygl 15 o'r Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin o ystyried bod y rhwymedigaeth hon yn cael ei dargadw yng nghyfraith y DU? A allwch chi ein sicrhau na fydd hyn yn arwain at gymryd cam yn ôl o gymharu â'r rhwymedigaeth gyfredol?**

Yn wahanol i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, nid yw Bil 2019-21 yn cynnwys dyletswydd i atal gorbysgota neu i gyflawni cyfradd bysgota'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.

**5. Beth yw eich ymateb i bryderon nad yw Bil 2019-21 yn bodloni'r ymrwymiad cyfreithiol i'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf, ac felly'n gam yn ôl o gymharu â'r safonau amgylcheddol cyfredol?**

Dirymodd Bil 2017-19 Erthygl 2 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Esboniwyd y dirymiad ar y sail y disodlwyd yr amcanion o dan Erthygl 2 o Reoliadau'r Polisi

---

[1] Cyflwynwyd Bil Pysgodfeydd 2017-19 ('Bil 2017-19') gyntaf yn Senedd y DU ym mis Hydref 2018. Ni chwblhaodd Bil 2017-19 ei hynt drwy Senedd y DU cyn diwedd sesiwn Seneddol 2017-19.

Pysgodfeydd Cyffredin gan yr amcanion o dan Gymal 1 o Fil 2017-19. Nid yw Bil 2019-20 yn dirymu Erthygl 2.

**6. A allwch esbonio pam, yn wahanol i Fil 2017-19, nad yw Bil 2019-20 yn dirymu Erthygl 2 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin?**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad cyntaf, gwnaethoch gytuno i fwrw ymlaen â'n hargymhelliad i ddiwygio Bil 2017-19 i gynnwys gofyniad ar yr awdurdodau polisi pysgodfeydd i adolygu'r amcanion pysgodfeydd bob chwe blynedd. Nid oes gofyniad o'r fath ym Mil 2019-21.

**7. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â gweinyddiaethau'r DU cyn cyflwyno Bil 2019-21 ynglŷn â chynnwys gofyniad o'r fath yn y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Bil? Beth oedd canlyniad y trafodaethau?**

**8. Yn absenoldeb gofyniad ym Mil y DU i adolygu'r amcanion pysgodfeydd, a allwch chi roi sicrwydd i'r Cynulliad y byddant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd yng Nghymru, ac egluro pa fecanweithiau a roddir ar waith i ddarparu ar gyfer hyn?**

**Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd**

Mae cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn newydd at ddibenion Bil 2020.

**9. Beth yw pwrpas ac effaith arfaethedig y darpariaethau newydd mewn perthynas â chynlluniau rheoli pysgodfeydd? A allwch chi egluro sut rydych chi'n credu y bydd y darpariaethau ychwanegol hyn yn eich cynorthwyo i ddatblygu polisïau ar gyfer pysgodfeydd Cymru?**

**10. Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau rheoli pysgodfeydd, oni bai eu bod yn nodi eu bwriad i wneud hynny yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Beth yw eich ymateb i hyn?**

**11. A allwch chi egluro a ydych yn bwriadu cyhoeddi cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar gyfer yr holl stociau, gan gynnwys stociau nad ydynt yn rhan o'r cwota yn nyfroedd Cymru? Os na, sut y byddwch chi'n penderfynu pa stociau ddylai fod yn destun cynllun?**

**12. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon fod y pŵer i Weinidogion Cymru wyro oddi wrth y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd yn rhy**

**fras ac y gallai danseilio effeithiolrwydd y Bil wrth ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy. Beth yw eich ymateb i hyn?**

**13. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw waith paratoi rydych chi wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas â'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd?**

**Mynediad at bysgodfeydd Prydain a rheoleiddio cychod pysgota tramor**

Ers adroddiad cyntaf y Pwyllgor, sefydlwyd yr Awdurdod Dyroddi Sengl i roi trwyddedau pysgota môr ar ran y Gweinyddiaethau Pysgodfeydd Datganoledig a'r Sefydliad Rheoli Morol.

Gwnaethoch ddweud wrthym yn eich llythyr, dyddiedig 17 Ebrill 2019, fod eich swyddogion yn cydweithio ag eraill i ddatblygu unrhyw ofynion trwyddedu ychwanegol y gellid ystyried bod eu hangen mewn perthynas â dyfroedd Cymru.

**14. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny? Yn benodol pa ofynion trwyddedu ychwanegol, os o gwbl, ydych chi'n bwriadu eu gosod mewn perthynas â dyfroedd Cymru?**

**15. A allwch chi egluro a fydd y Bil yn atal cychod pysgota tramor rhag cofrestru fel rhai Prydeinig, ac os felly, sut?**

**16. A allwch chi egluro a fydd cwmnïau cyhoeddus sydd wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain yn cael eu trin fel rhai Prydeinig?**

**17. A allwch chi gadarnhau a fydd y pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru i osod gofynion trwyddedu yn eu galluogi i fynnu bod teledu cylch cyfyng a monitro electronig o bell yn amod trwydded? Os felly, a ydych chi'n bwriadu gosod amodau o'r fath?**

> **– Os nad ydych chi'n bwriadu gosod gofyniad trwyddedu i fynnu bod teledu cylch cyfyng ar gychod a monitro electronig o bell, sut ydych chi'n bwriadu sicrhau gwaith monitro a rheoli effeithiol?**

**Cyfleoedd pysgota**

Yn ystod ein gwaith craffu ar Fil 2017-19, gwnaethoch amlinellu pryderon Llywodraeth Cymru ynglŷn â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota. Gwnaethoch ddweud bod y mater hwn yn "linell goch" i Lywodraeth Cymru ac na fyddech mewn sefyllfa i argymell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad i'r Bil oni chai hyn ei ddatrys.

Ym mis Mawrth 2019, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod wedi methu â dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar welliannau i'r darpariaethau hyn. Yn lle hynny, roeddech wedi cytuno y byddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y bwriedir defnyddio'r pŵer a phrosesau ymgynghori cryfach. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo ar sefydlu mecanwaith y cytunwyd arno ar gyfer datrys anghydfodau.

Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2019-21 yn sôn am safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau cyfatebol (cymalau 23 a 24), heblaw dweud y bydd angen cydsyniad y Cynulliad.

**18. A allwch chi roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ers mis Mawrth 2019 o ran datblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd a'r Mecanwaith Datrys Anghydfodau?**

**19. A allwch chi egluro pam rydych chi wedi dewis mynd ar drywydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hytrach na chytundeb dwyochrog (a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â phryderon tebyg am ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd ym Mil Amaethyddiaeth y DU)?**

Yn ddiweddar, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad na fydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei gwblhau tan ddiwedd y cyfnod gweithredu.

**20. Pa sicrwydd pellach allwch chi ei ddarparu y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd yn bodloni ein pryderon ynghylch cwmpas pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, a nodir yn ein hadroddiad cyntaf?**

Ym mis Mawrth 2019, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod eisoes wedi dechrau trafodaethau â gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill y DU ynghylch dosbarthu cyfleoedd pysgota yn y dyfodol. Y bwriad oedd sicrhau bod yr annhegwch presennol wrth ddyrannu cwotâu yn cael ei ddatrys.

**21. A allwch chi roi gwybod i ni beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny?**

Roedd Bil 2017-19 yn cynnwys pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol werthu cyfleoedd pysgota yn Lloegr. Mae Atodlen 5 i Fil 2019-21 yn cynnwys pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyfleoedd pysgota yng Nghymru. Nid oes pwerau cyfatebol i Weinidogion yr Alban na'r adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

**22. A allwch chi egluro pam rydych chi'n ceisio'r pwerau newydd hyn, a phryd a sut rydych chi'n bwriadu eu defnyddio?**

**23. A allwch egluro a fydd y pwerau hyn:**

- **yn cael eu defnyddio i werthu cwota Cymru i gychod pysgota tramor; ac**
- **yn gyfyngedig i werthu cwota ychwanegol y gellir ei ennill ar ôl i'r DU ymadael â'r UE?**

**Cynlluniau codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod**

Mae Bil 2017-19 a Bil 2019-21 yn cynnwys pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu cynllun codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod. Nid oes unrhyw bwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru yn y naill Fil na'r llall.

**24. A allwch chi egluro pam nad ydych chi'n ceisio pwerau i sefydlu cynllun codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod? Beth fyddai anfanteision cynllun codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod yn eich barn chi?**

**Pwerau cymorth ariannol**

Ehangwyd y dibenion y caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth ariannol ar eu cyfer (a nodir yn Atodlen 6) ers Bil 2017-19. Maent bellach yn cynnwys:

- cynnal neu wella iechyd a diogelwch unigolion sy'n ymwneud â gweithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol;
- hyfforddi unigolion sy'n cymryd rhan, sydd wedi cymryd rhan neu sy'n bwriadu cymryd rhan mewn gweithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol, neu sy'n aelodau o deulu unigolion o'r fath;
- gwaith datblygu economaidd neu welliant cymdeithasol mewn ardaloedd lle cynhelir gweithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol; a

- gwella'r trefniadau ar gyfer defnyddio cwotâu dal neu gwotâu ymdrech.

**25. A allwch chi egluro pam y mae’r dibenion wedi cael eu hehangu, ac amlinellu sut y gellir defnyddio'r dibenion newydd hyn yng nghyd-destun Cymru?**

**26. A allwch chi roi manylion am y llinell amser rydych chi'n gweithio tuag ati ar gyfer datblygu unrhyw gynllun cymorth ariannol newydd?**

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom argymell y dylid newid Bil 2017-19 i gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol a sefydlir o dan y pwerau hyn yn y dyfodol. Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod wedi “cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil” a bod “trafodaethau ar y gweill”. Nid oes gofyniad o'r fath ym Mil 2019-21.

**27. Pa drafodaethau a gafwyd â Llywodraeth y DU cyn cyflwyno Bil 2019-21 ynglŷn â chynnwys gofyniad o'r fath yn y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Bil? Beth oedd canlyniad y trafodaethau hyn?**

Yn wahanol i wneud rheoliadau mewn perthynas â chymorth ariannol, mae Bil 2020 yn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau mewn perthynas â gwerthu cyfleoedd pysgota yng Nghymru (Atodlen 5) a gosod taliadau (Atodlen 7).

**28. A allwch chi esbonio'r rhesymeg am y gwahaniaeth hwn o ran dull gweithredu?**

**Adnoddau a chapasiti**

**29. I ba raddau y mae gan Is-adran Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru y gallu staffio i ymdrin â'r allbynnau a'r cyfrifoldebau newydd a fyddai'n codi o Fil 2019-2021, gan gynnwys:**

- **datblygu rheoliadau newydd;**
- **Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd newydd;**
- **trefniadau rhynglywodraethol newydd gan gynnwys y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac unrhyw drefniadau datrys anghydfod; a**
- **mwy o gyfrifoldeb datganoledig o dan y Bil am reoleiddio pysgodfeydd ym mharth Cymru?**

**30. A ydych chi'n disgwyl i hyn effeithio ar feysydd gwaith eraill yr Is-adran?**

**31. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o oblygiadau ariannol Bil 2019-21, ac a allwch chi roi manylion yr asesiad hwnnw i ni?**

**Bil Pysgodfeydd i Gymru**

Drwy gydol ein gwaith craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-19, gwnaethoch haeru y byddai'r pwerau gweithredol a roddir gan y Bil yn rhai trosiannol nes y gellir pasio Bil Pysgodfeydd i Gymru, a gwnaethoch ddweud y byddai hynny’n digwydd cyn diwedd y Pumed Cynulliad. Mae eich safbwynt wedi newid ers hynny ac nid oes gennych gynlluniau i gyflwyno Bil o'r fath yn ystod y Pumed Cynulliad. Yn fwyaf diweddar, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad nad oedd modd i chi roi syniad o ran pryd y gellid disgwyl Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.

**32. A allwch chi egluro pryd a pham y gwnaethoch benderfynu peidio â chyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru cyn diwedd y Pumed Cynulliad?**

Er i chi haeru y byddai’r pwerau gweithredol a roddir gan Fil 2019-21 yn rhai trosiannol, nid oes cymal machlud yn y Bil. Mae hyn yn wahanol i Fil Amaethyddiaeth y DU 2019-21, sydd hefyd yn cynnwys nifer o bwerau gweithredol 'trosiannol'.

**33. A allwch chi esbonio'r rhesymeg am y gwahaniaeth hwn o ran dull gweithredu?**

- **A ydych o’r farn y byddai’n well cynnwys cymal machlud ym Mil Pysgodfeydd y DU 2019-21? Os na, pam hynny?**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau uchod erbyn **28 Ebrill 2020** fan bellaf. Os bydd y terfyn amser hwnnw’n peri unrhyw drafferthion i chi, byddwn yn gofyn i’ch swyddogion gysylltu â'r tîm Clercio er mwyn trafod ymhellach.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwled**